**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 8 Medi 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C E Lloyd | P Downing | D G Sullivan |
| J P Curtice | M B Lewis | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P A Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| N Jellema | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| Andre Ranchin | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Carolyn Isaac | Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): W G Thomas

---

## 1 Ethol Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Penderfynwyd y dylid ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022

**(Y Cynghorydd C E Lloyd fu’n llywyddu)**

## 2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer dlwyddyn ddinesig 2021/2022.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd P Downing yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022.

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Y Cynghorydd J P Curtice - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd – yr agenda yn ei chyfanrwydd – aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac rwy'n derbyn pensiwn a weinyddir gan gyn-Gyngor Dyfed - personol.

**Arsyllwr:**

I Guy - Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chofnod Rhif 32 - Adroddiad a Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft 2020/21 - Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf - personol.

## 4 Cofnodion.

**Penderfynwyd** llofnodi a chymeradwyo Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

## 5 Adroddiad am doriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2021. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 6 Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer rhaglen waith Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-2024.

Ychwanegwyd, yn unol ag arfer gorau, fod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio cynllun busnes i lywio'i raglen waith ar gyfer y cyfnod o 12 mis sydd i ddod. Darparwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/2024 yn Atodiad 1.

Ychwanegwyd ymhellach fod Penodi Cynrychiolydd Aelod o'r Cynllun i'r Cydbwyllgor Llywodraethu wedi derbyn cytundeb rhyng-Awdurdod diwygiedig a bod yn rhaid i bob awdurdod unigol hefyd gael cymeradwyaeth o'u cyfarfod cyngor.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/22.

## 7 Adroddiad a datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2020/21.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 yr adroddiad a'r datganiad o gyfrifon blynyddol drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2020/21 i'w gymeradwyo.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe bob amser wedi cynhyrchu datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar wahân mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol dan sylw, a oedd yn destun archwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, penderfynwyd cydgrynhoi'r ddwy ddogfen yn un a symleiddio'r broses gynhyrchu/archwilio.

Ychwanegwyd bod Swyddogion wedi cyflwyno adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon drafft ar gyfer 2020/21 wedi'u cwblhau i Archwilio Cymru i ddechrau eu harchwiliad. Roedd Archwilio Cymru wedi nodi na fyddent yn dechrau eu harchwiliad o Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon drafft 2020/21 y Gronfa Bensiwn tan fis Medi 2021 oherwydd oedi yn eu harchwiliadau statudol o'u cleientiaid corff cyhoeddus eraill (gan gynnwys Cyngor Abertawe). Byddai eu hadroddiad Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (SRhA) 260 dilynol gyda barn archwilio a chanfyddiadau archwilio'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar ddiwedd yr archwiliad ym mis Tachwedd 2021.

Atodwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2020/21 yn Atodiad 1.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar y canlyniadau rhagorol a ddarparwyd a diolchwyd i'r staff yn y Gwasanaethau Ariannol a'u llongyfarch am eu gwaith a'u hymrwymiad, yn enwedig drwy gydol pandemig COVID-19.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft 2020/21 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, yn amodol ar archwiliad.

## 8 Ymholiadau ynghylch archwiliadau i'r rheini sy'n gyfrifol am Lywodraethu.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rheolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am ymatebion llywodraethu i ymholiadau archwilio 2020/21.

Esboniwyd, yn unol â gofynion statudol, fod Archwilio Cymru wedi amlinellu eu cynllun archwilio i archwilio'r datganiad ariannol a'r dulliau rheoli ariannol cysylltiedig mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2021. Roedd Archwilio Cymru wedi dweud y byddent yn dechrau eu gwaith maes archwilio yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 6 Medi 2021.

Ychwanegwyd, fel rhan o'u gwaith rhagarweiniol, fod Archwilio Cymru wedi gwneud rhai ymholiadau lefel uchel mewn perthynas â'r fframweithiau llywodraethu a rheoli sydd ar waith ac yn weithredol wrth reoli'r Gronfa Bensiwn. Darparodd Atodiad 1 ymateb y rheolwyr a'r ymateb arfaethedig mewn perthynas â'r sawl sy'n gyfrifol am Lywodraethu i'r ymholiadau archwilio hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ymatebion atodedig i ymholiadau archwilio.

## 9 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 10 Diweddariad ar y Strategaeth Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer parhad y rhaglen ailddyrannu asedau (lleihau risg) bresennol o ecwitïau i asedau sy'n cynhyrchu, gan nodi'r enillion buddsoddi rhagorol o 31% (cyfartaledd CPLlL o 22%). Cydnabuwyd bod gan y strategaeth arfaethedig risg o ran cyfleoedd cymharol dyladwy os bydd marchnadoedd ecwiti'n parhau i berfformio'n well ond cydnabuwyd ei bod yn ddoeth cyn prisiad tair blynedd 31/3/22.

**Penderfynwyd:** -

1) Y dirprwyir awdurdod i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151, mewn ymgynghoriad â'r ymgynghorwyr buddsoddi penodedig a Chadeirydd

Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, barhau i weithredu'r rhaglen ailddyrannu asedau (dad-risgio) o ddadfuddsoddi asedau ecwiti ac ailfuddsoddi mewn asedau amgen sy'n cynhyrchu gan gynnwys buddsoddi mewn dosbarthiadau asedau/rheolwyr buddsoddi newydd gan gynnwys pren.

2) Y dirprwyir awdurdod i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151, mewn ymgynghoriad â'r ymgynghorwyr buddsoddi penodedig a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, fonitro prisio diogelu ecwiti ar gyfer cyfleoedd ail-weithredu wrth arfarnu offerynnau ariannol amgen (e.e. cyllid masnach) a allai ddarparu yswiriant tebyg am bris cymharol well a buddsoddi/gweithredu fel y bo'n briodol.

## 11 Sero Net.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn ceisio gwerthuso goblygiadau cyflawni portffolio buddsoddi carbon sero-net yng Nghronfeydd Pensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Amlinellwyd bod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi cymeradwyo'r fersiwn gyntaf o'i Bolisi Buddsoddi Cyfrifol yn 2017 ac roedd y fersiynau dilynol wedi nodi gostyngiad o 50% mewn carbon yn ei dargedau ecwiti rhestredig erbyn 2022. Adroddwyd am y cynnydd yn erbyn y targed hwn wrth Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Tachwedd 2020.

Ychwanegwyd bod yr Awdurdod Gweinyddu, Cyngor Abertawe, wedi cymeradwyo targed uchelgeisiol o fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030 a hefyd ar gyfer y Ddinas gyfan erbyn 2050.

Cytunwyd ar gynnal gweithdy ar y cyd gyda Phwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiwn Lleol Sero-Net ym mis Hydref 2021.

## 12 Rheoli arian.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth benodol ar gyfer y defnydd o gronfeydd y farchnad arian/cronfeydd bondiau wrth reoli llifoedd arian parod gwaith y Gronfa Bensiwn yn effeithiol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r defnydd o arian y farchnad arian/cronfeydd bondiau i'w ddefnyddio wrth reoli balansau llif arian y Gronfa Bensiwn yn unol â Strategaeth Buddsoddi Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod Gweinyddu a bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 weithredu hyn fel y bo'n briodol.

## 13 Partneriaeth Pensiwn Cymru - diweddariad.

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Darparodd Atodiad 1 yr adroddiad cynnydd a diweddaru chwarterol, ynghyd â'r adroddiad blynyddol a ddarparwyd gan awdurdod cynnal Partneriaeth Pensiwn Cymru, Cyngor Sir Gâr a Chynllun Contractiol Awdurdodedig (ACS) The Operator - Link. Darparodd Atodiad 2 lythyr Marchnadoedd Preifat PPC i aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Nodwyd bod y Cynghorydd C E Lloyd, Cadeirydd Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe wedi'i benodi'n Gadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC.

## 14 Gwarchodaeth a gwasanaethau cysylltiedig.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer proses gaffael briodol a phenodiad dilynol i atgyfnerthu gwarchodaeth a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

**Penderfynwyd** rhoi cymeradwyaeth ddirprwyedig i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 i: -

a) Gael mynediad at fframwaith CPLlL Norfolk ar gyfer gwarchodaeth a gwasanaethau cysylltiedig;
b) Defnyddio'r fframwaith yn ôl y gofyn gyda'r bwriad o atgyfnerthu darparwr y warchodaeth yn unol â darpariaeth PPC.

## 15 Adroddiad(au) yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Darparodd Nick Jellema ac Andre Ranchin, Ymgynghorwyr Buddsoddi, adroddiad 'er gwybodaeth', a gyflwynodd yr Adroddiad Monitro Buddsoddi Chwarterol.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol.  Diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Buddsoddi am eu hadroddiad.

## 16 Crynodeb Buddsoddi.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021 yn Atodiad 1.

## 17 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:

Gwnaed cyflwyniad gan Aidan Quinn,Helena Hui Rovonas, Gerard Fitzpatrick, Andreas Koester a Taran Paik o Russell Russell Investments ar Ecwitïau Byd-eang/Mandadau Incwm Sefydlog.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddarparu'r cyflwyniad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.48 am

**Cadeirydd**